Adroddiad ar

Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn

Llanfihangel-y-Creuddyn
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 4LA

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 16 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 14 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | * |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 71.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Rhagfyr 2002 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 17/01/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 20/10/2025 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Llanfihangel y Creuddyn yn ysgol ofalgar a chynhwysol lle mae pob disgybl yn teimlo'n hapus a diogel. O dan arweinyddiaeth gadarn y pennaeth, mae ethos clir o gydweithio a diwylliant lle mae 'plant hapus yn ddysgwyr hapus'. Mae'r berthynas rhwng staff a disgyblion yn gryf ac yn seiliedig ar barch a gofal, sy'n cyfrannu'n dda at eu lles a'u hagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae'r gofal personol a'r gefnogaeth i bob disgybl yn effeithiol.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sydd wedi'i wreiddio yn y gymuned leol. Mae'r profiadau dysgu yn helpu disgyblion i ddatblygu ymdeimlad cryf o hunaniaeth Gymreig ac ymwybyddiaeth o'r byd ehangach. Maent yn dysgu i werthfawrogi gwahaniaethau, dangos caredigrwydd ac ystyried safbwyntiau eraill.

Mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau i ennyn a chynnal diddordeb disgyblion ac i'w hannog i feddwl yn fwy annibynnol. Mae hyn yn dechrau datblygu, er nad yw'r ddarpariaeth yn rhoi digon o gyfleoedd i feithrin medrau dysgu annibynnol disgyblion yn ddigon cyson. Mae athrawon yn defnyddio dulliau holi effeithiol i ddyfnhau dealltwriaeth a gwybodaeth y disgyblion ac yn darparu adborth clir ac amserol sy'n eu helpu i ddeall sut i wella eu gwaith. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae staff yn rhoi pwyslais arbennig ar y Gymraeg, ac mae disgyblion yn datblygu medrau darllen yn llwyddiannus, ac yn sgwrsio â'u cyfoedion yn hyderus yn Gymraeg. Maent yn defnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd yn fedrus ar draws y meysydd dysgu, ac yn dangos creadigrwydd wrth ysgrifennu ac wrth ddatrys problemau mathemategol. Mae cyfleoedd digidol, celfyddydol a pherfformio yn cefnogi datblygiad eu medrau ehangach yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn meithrin perthynas gadarn â rhieni â'r gymuned leol, gan sicrhau bod y rhieni'n rhan o fywyd yr ysgol ac yn ymwybodol o gynnydd eu plant. Mae'r llywodraethwyr yn ymroddedig ac yn deall cryfderau a meysydd datblygu'r ysgol yn dda. Maent, gyda'r pennaeth a'r staff, yn canolbwyntio ar wella'r profiadau dysgu a'r amgylchedd ar gyfer pob disgybl yn effeithiol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1. Cryfhau cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chroesawgar. O dan arweinyddiaeth flaengar y pennaeth, mae gan staff ddyheadau uchel wrth gydweithio'n fedrus i greu amgylchedd cynhwysol ar gyfer meithrin lles a datblygu dysgu'r disgyblion. Mae staff yn arddel arwyddair yr ysgol ymhob agwedd o fywyd ysgol, sef 'plant hapus, dysgwyr hapus', yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol.

Mae staff yn meithrin perthnasoedd hynod effeithiol â disgyblion. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn deall yn glir eu anghenion lles a dysgu unigol. Mae hyn yn gryfder nodedig o'r ddarpariaeth ac yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau cymdeithasol ac emosiynol yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn barchus a chwrtais, ac maent yn dangos gofal tyner at ei gilydd.

### Ciplun: Datblygu perthnasoedd cadarn rhwng disgyblion ar draws yr ysgol

Cryfder hynod nodedig o'r ddarpariaeth yw'r perthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng y staff a'r disgyblion sy'n cyfrannu at natur gartrefol, cymunedol a hapus yr ysgol. Mae staff yn arddel pwysigrwydd hyn yn holl weithgareddau'r ysgol ac yn cynllunio cyfleoedd cyson i'r disgyblion hŷn gydweithio â'r disgyblion ieuengaf. Er enghraifft, maent yn eu cefnogi i ddatblygu eu medrau darllen, corfforol a digidol yn fedrus ac yn eu hannog i chwarae gemau amrywiol yn ystod amseroedd egwyl. O ganlyniad, mae'r caredigrwydd a'r gofal mae'r disgyblion yn eu dangos at ei gilydd yn arwyddocaol, ac yn cefnogi ethos teuluol a chlòs yr ysgol yn llwyddiannus.

Mae athrawon yn cydweithio'n fwriadus er mwyn darparu cwricwlwm eang a chytbwys i ddisgyblion sydd wedi'i wreiddio yn y gymuned leol. Darperir cyfleoedd buddiol i'r disgyblion ddysgu am eu hardal, eu hunaniaeth Gymreig a'r byd ehangach. Mae hyn, yn ei dro, yn eu paratoi'r disgyblion i fod yn ddinasyddion cydwybodol a gwybodus ymhob agwedd o'u dysgu a'u chwarae. Mae staff yn cefnogi ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ystyried safbwyntiau a gwerthoedd eraill ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o unigolion sy'n wahanol iddyn nhw yn fedrus.

Mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu effeithiol ac yn cyflwyno'r gweithgareddau gyda chyflymder sy'n addas i'r dysgu. Maent yn dechrau cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu'n annibynnol. Er hyn, ar adegau, mae tueddiad i staff or-arwain y gweithgareddau sy'n arafu eu gallu i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn yr amgylchedd dysgu y tu fewn i'r ysgol ac yn yr awyr agored.

Mae athrawon yn defnyddio dulliau holi ac anogaeth yn amserol er mwyn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau ac ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o

wahanol gyd-destunau. Maent yn rhannu adborth yn gyson sy’n galluogi disgyblion i adnabod yr hyn maent wedi ei wneud yn dda. Trwy hyn, mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o sut i wella eu gwaith ac i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. O ganlyniad, dros gyfnod, mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn unigol.

Mae staff yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu’r Gymraeg, ac maent yn arddel yr iaith yn fedrus. Trwy hyn, erbyn brig yr ysgol, mae’r disgyblion yn datblygu eu medrau gwrando a siarad yn llwyddiannus. Maent yn hyderus wrth gymryd rhan mewn trafodaethau ac yn mynegi eu syniadau a’u barn yn aeddfed. O oedran cynnar, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau darllen. Maent yn darllen â rhuglder ac yn defnyddio strategaethau pwrpasol i ddeall ystyr cynnwys gwahanol destunau. Maent yn defnyddio ystod dda o’u medrau llythrennedd yn effeithiol mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Mae medrau ysgrifennu’r disgyblion yn datblygu’n dda. Mae’r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau ffurfio llythrennau cynnar ac yn dechrau ysgrifennu gan ddefnyddio amrywiaeth dda o adnoddau perthnasol. Erbyn brig yr ysgol, mae’r disgyblion hŷn yn ysgrifennu’n annibynnol gan ddewis geirfa’n bwrpasol i ennyn diddordeb y darllenydd.

Mae disgyblion yn datblygu medrau mathemateg cadarn ar draws yr ysgol. O ganlyniad i brofiadau a gweithgareddau dysgu diddorol a ddarperir gan athrawon, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhif yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu, fel wrth greu graffiau, dadansoddi data a datrys problemau, yn fedrus. Mae cynllunio gofalus athrawon yn darparu her sy’n berthnasol i oed a cham datblygu’r disgyblion mewn gweithgareddau rhifedd, gan herio’r disgyblion i gymhwyso a datblygu ymhellach eu medrau rhif yn effeithiol.

O ganlyniad i gyfleoedd amrywiol sy’n cael eu darparu gan athrawon, mae medrau digidol disgyblion yn datblygu’n gadarn. Erbyn brig yr ysgol, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau yn fedrus, fel wrth gasglu a didoli data, codio ac wrth gynhyrchu gwefan am hanes yr ysgol. Mae staff yn rhoi cyfleoedd amrywiol i ddatblygu medrau creadigol, artistig a pherfformio disgyblion yn effeithiol trwy hyrwyddo cyfleoedd iddynt gystadlu mewn eisteddfod ar-lein yn erbyn disgyblion o ysgolion eraill.

Mae staff yn darparu cymorth pwrpasol ac o ansawdd cadarn ar gyfer pob disgybl. Mae trefniadau’r ysgol yn adnabod anghenion unigol disgyblion yn gynnar ac yn sicrhau bod y gefnogaeth yn cael ei theilwra’n fedrus i'w hanghenion personol. Mae’r ddarpariaeth yn amlinellu’n glir anghenion dysgu’r disgyblion, sy’n cyfrannu’n werthfawr at allu’r athrawon i’w cefnogi yn fwriadus.

Mae arweinwyr a staff yn datblygu perthnasoedd gweithio cryf â rhieni a’r gymuned leol. Mae’r pennaeth yn cyfathrebu â rhieni yn rheolaidd i’w hysbysu am gynnydd eu plant a

digwyddiadau ehangach yr ysgol. Mae'r rhieni yn ymfalchïo fod eu plant yn mynychu'r ysgol leol hon ac yn gwerthfawrogi'r amryfal brofiadau ynghyd â'r gofal a'r lles arbennig sy'n cael ei ddarparu gan staff.

Mae llywodraethwyr yr ysgol yn wybodus ac yn gefnogol i'r ysgol. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau monitro, yn dod ag ystod o wybodaeth a phrofiad i'w cyfrifoldebau ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o weithgareddau a chynnydd yr ysgol. Ar y cyd â'r staff, maent yn canolbwyntio ar wella ansawdd amgylchedd dysgu yr ysgol, y ddarpariaeth a'r dysgu yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ac yn gwerthuso cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu yn drylwyr. Maent yn gweithredu prosesau gwella manwl a rheolaidd sy'n arwain at welliannau cynaledig dros amser. Er enghraifft, mae datblygiadau diweddar yn cynnwys gwella'r her mewn gweithgareddau dysgu ar gyfer cefnogi pob disgybl i wneud cynnydd cadarn, a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion ieuengaf.

Mae arweinwyr yn cefnogi datblygiad staff yn gelfydd. Maent yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff weithredu ar y meysydd sydd angen eu gwella. Trwy gydweithio agos â staff o ysgolion lleol, maent yn cael cyfleoedd i fonitro cynnydd mewn dysgu disgyblion ar y cyd, ac yn arsylwi arferion addysgu effeithiol er mwyn parhau i wella'r cyfleoedd a phrofiadau dysgu cyfoethog i ddisgyblion yr ysgol. Mae'r cyfleoedd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a dysgu'r disgyblion.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/12/2025